

B5. Darparu arweinyddiaeth i'ch tîm

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â rhoi cyfeiriad i aelodau'ch tîm a'u cymell a'u cefnogi i gyflawni amcanion y tîm a'u hamcanion gwaith personol.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer arweinwyr tîm.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac unedau **D1. Datblygu perthnasau gweithio cynhyrchiol gyda chydweithwyr**, **B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb** a **D5. Dyrannu gwaith yn eich tîm a'i wirio** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddarparu arweinyddiaeth i'ch tîm. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Cynllunio
- Adeiladu tîm
- Arwain trwy esiampl
- Darparu adborth
- Gosod amcanion
- Cymell
- Ymgynghori
- Datrys problemau
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Monitro
- Rheoli gwrthdaro
- Gwneud penderfyniadau
- Dilyn

B5. Darparu arweinyddiaeth i'ch tîm

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Manylu ar bwrpas ac amcanion y tîm i'r holl aelodau, a'u cyfathrebu mewn ffordd bositif.
2. Cynnwys aelodau wrth gynllunio sut bydd y tîm yn cyflawni ei amcanion.
3. Sicrhau bod gan bob aelod o'r tîm amcanion gwaith personol a'u bod yn deall sut y bydd cyflawni'r rhain yn cyfrannu at gyflawni amcanion y tîm.
4. Annog a chefnogi aelodau'r tîm i gyflawni eu hamcanion gwaith personol ac amcanion y tîm, a rhoi cydnabyddiaeth pan gyflawnir amcanion.
5. Trwy'ch perfformiad fel arweinydd, ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth y tîm.
6. Llywio'r tîm yn llwyddiannus trwy anawsterau a heriau, gan gynnwys gwrthdaro o fewn y tîm.
7. Annog a chydnabod creadigrwydd ac arloesedd o fewn y tîm.
8. Rhoi cefnogaeth a chynghor i aelodau'r tîm pan fydd eu hangen arnynt, yn enwedig yn ystod cyfnodau o rwystrau a newid.
9. Cymell aelodau'r tîm i gyflwyno'u syniadau eu hunain, a gwranddo ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.
10. Annog aelodau'r tîm i arwain pan fydd ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd, a dangos parodrwydd i ddilyn yr arweiniad hwn.
11. Monitro gweithgareddau a chynnydd yn y tîm drwyddo draw heb ymyrryd.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.
2. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb personol am wneud i bethau ddigwydd.
3. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
4. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.
5. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
6. Byddwch yn onest, yn deg ac yn gyson wrth wneud penderfyniadau.
7. Byddwch yn ceisio deall anghenion a chymelliannau pobl.
8. Byddwch yn ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithrediad.

B5. Darparu arweinyddiaeth i'ch tîm

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Gwahanol ffyrdd o gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau tîm
2. Sut i osod amcanion sy'n SMART (Sbesiffig, Mesuradwy, Amcan clir, Realistig, Terfyn amser)
3. Sut i gynllunio cyflawni amcanion y tîm a phwysigrwydd cynnwys aelodau'r tîm yn y broses hon
4. Pwysigrwydd dangos a medru dangos i aelodau'r tîm sut bydd amcanion gwaith personol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y tîm
5. Bod gwahanol arddulliau arweinyddiaeth yn bodoli
6. Sut i ddedhol amrediad cyfyngedig o wahanol arddulliau ar gyfer cymell, cefnogi ac annog aelodau'r tîm a chydabod eu cyflawniadau, a defnyddio'r arddulliau hyn yn llwyddiannus
7. Mathau o anawsterau a heriau a allai godi, gan gynnwys gwrthdaro o fewn y tîm, a ffyrdd o'u nodi a'u goresgyn
8. Pwysigrwydd annog pobl eraill i gymryd yr awenau a ffyrdd o gyflawni hyn
9. Manteision annog a chydabod creadigrwydd ac arloesedd mewn tîm, a sut i wneud hyn

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn y diwydiant/sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Aelodau, pwrpas, amcanion a chynlluniau eich tîm
2. Amcanion gwaith personol aelodau'ch tîm
3. Y mathau o gefnogaeth a chynghor y mae'n debygol y bydd eu hangen ar aelodau'r tîm a sut i ymateb i'r rhain
4. Safonau perfformiad ar gyfer gwaith eich tîm